| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **11 Gorffennaf 2011** |
| **TEITL :** | **Cais am ollyngiad gan y Cynghorydd John Pughe Roberts** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu ar y cais** |

**Cefndir**

1. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn ystyried cynlluniau i ad-drefnu ysgolion dalgylch Ysgol y Gader, Dolgellau. Mae'r mater eisoes wedi ei drafod gan y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a bydd y Bwrdd yn ei ystyried ar 5 Gorffennaf cyn mynd i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 14 Gorffennaf. Mae'r cynlluniau ar gyfer y dalgylch wedi eu rhannu yn dair rhan sef – (i) ysgolion ochr ddwyreiniol y dalgylch, (ii) ysgolion yr ochr orllewinol a (iii) ysgolion tref Dolgellau.

2. Mae'r Cyng. John Pughe Roberts wedi datgan buddiant sy'n rhagfarnu mewn cysylltiad ac ysgolion yr ochr ddwyreiniol oherwydd bod plant ei chwaer yn ddisgyblion yn ysgol Dinas Mawddwy. Cafodd ollyngiad gan y Pwyllgor Safonau mewn cysylltiad â'r buddiant yma ar 12/10/09:

*"Caniatáu gollyngiad i'r aelod gymryd rhan yn y trafodaethau ac i bleidleisio ar faterion a ystyrir gan y Panel Adolygu Dalgylch a chan bwyllgorau'r Cyngor a'r Cyngor llawn"*

3. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu ar 23 Mehefin 2011 gwnaeth y cynghorydd ddatgan buddiant arall sy'n rhagfarnu, sef bod plentyn ei chwaer yn ddisgybl yn ysgol y Gader. Mae wedi gofyn am ollyngiad i'w ganiatáu i gymryd rhan yn y cyfarfod o'r Cyngor llawn pan drafodir yr ysgol. Nid oedd y ffurflen i law wrth baratoi'r adroddiad ond cyflwynir hi yn y cyfarfod.

4. Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu gollyngiad os yw'r sefyllfa yn dod o fewn un (neu fwy) o'r sefyllfaoedd a restrir yn y rheoliadau perthnasol (**Atodiad**).

5. Mae'r Pwyllgor yn y gorffennol wedi gosod canllawiau i'w hystyried wrth ystyried ceisiadau yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion:

> *Y byddai 'tad/mam, taid/nain, ŵyr/wyres, gŵr neu wraig, plant, brawd neu chwaer yn creu cysylltiad rhy agos i ganiatáu gollyngiad o safbwynt ysgolion penodol oherwydd y byddai'n anodd i'r cyhoedd gael hyder yn y modd y gwneid y penderfyniadau*"

6. Mae canllawiau'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad (Ebrill 2010) yn nodi'r canlynol mewn cysylltiad â gollyngiadau (tud.35):

> *"Bydd angen i'r pwyllgor safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiant sy'n rhagfarnu rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau'r awdurdod sy'n weddol gynrychioladol."*

**Argymhelliad**

7. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar gais y Cynghorydd John Pughe Roberts am ollyngiad.